



# Vale School Governors' Association

## Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

### a'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr

# Cylchlythyr

## Nodyn gan y Cadeirydd

Mae'n teimlo fel pe bai'r gwanwyn wedi cyrraedd. Mae'n cynhesu ac roedd y cennin Pedr yn odidog ar ddydd Gŵyl Dewi. Rydw i wedi bod yn rhoi mwy o sylw i'r tywydd, yn enwedig y diwrnodau braf a heulog yr ydym wedi eu cael yn ddiweddar, ers i mi osod paneli solar ar do fy nhŷ. Mae diwrnodau heulog yn golygu bod cryn dipyn o drydan yn cael ei gynhyrchu, sy'n gostwng fy miliau ac yn helpu i osgoi cynhesu byd-eang, o leiaf rhyw ychydig.

Mae pethau'n symud yn eu blaen ym myd Addysg hefyd. Mae'r Fro yn rhan o Gonsortium Canol De Cymru gyda phedwar awdurdod lleol arall. Bydd y Consortium yn darparu gwasanaethau gwella ysgolion i awdurdodau lleol ac ysgolion yn y pum sir o fis Medi nesaf. Bydd modd i chi weld rhagor o wybodaeth yn y cylchlythyr hwn, ond hoffwn dynnu eich sylw at un darn o wybodaeth. Penodwyd Bryan Jeffreys, Cyfarwyddwr Dysgu gydol oes y Fro yn Gyfarwyddwr Interim newydd y Consortium, ac ar ran Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro, hoffwn ei longyfarch wrth iddo ymgymryd â'i rôl newydd.

Un o fanteision y Consortium newydd oedd y gynhadledd ddefnyddiol iawn a gynhaliwyd ar y cyd ar gyfer Llywodraethwyr Ysgolion yn Nantgarw ddechrau fis Mawrth, lle y cafwyd

anerchiad gan y Gweinidog Addysg. Mynychais sesiwn arbennig o ddiddorol ynghylch data ysgolion a sut i'w ddefnyddio. Mae angen i Lywodraethwyr ystyried yr holl wybodaeth a roddir iddynt, gan edrych y tu ôl i'r ffigurau. Mae angen iddynt gwestiynu o ble y daw'r ffigurau a'r hyn y maent yn ei olygu mewn gwirionedd. Bydd arolygwyr Estyn yn chwilio am dystiolaeth bod Llywodraethwyr wedi herio'u hysgolion a'u bod wedi defnyddio'r data wrth iddynt wneud eu penderfyniadau. Felly, wrth ystyried graff sy'n dangos cynnydd o ran safonau Saesneg, gallai'r cwestiynau gynnwys: Sut y caiff safonau eu mesur? Pa strategaethau a weithredwyd gan yr ysgol er mwyn gwella'r sefyllfa? A ydynt yn gweithio o hyd? Beth yw'r dadansoddiad o'r sefyllfa rhwng perfformiad bechgyn a merched? A yw plant sy'n cael pryddau ysgol am ddim yn dilyn yr un duedd hefyd? Sut mae plant sy'n derbyn gofal yn perfformio o ran y mesur hwn?

Felly ewch ati i feddwl am y wybodaeth yr ydych yn ei chael fel Llywodraethwr. A yw'n ddealladwy? Ai hon yw'r wybodaeth gywir? Beth arall y mae angen i chi ei gael a pham?

**Martin Price**

**Cadeirydd VSGA ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri**

### Mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg,  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Provincial House, Kendrick Road, Barry CF62 8BF

### Manylion cyswllt:

**John Sparks**  
Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

**Janine Hoare**  
Swyddog Uwch Cymorth i Lywodraethwyr  
Ffôn: 01446 709108 Ffacs: 01446 701820  
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn â ni, sef [VSGA@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:VSGA@valeofglamorgan.gov.uk)

Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:  
**VSGA**

**Uned Cymorth i Lywodraethwyr  
Cyngor Bro Morgannwg  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion  
Provincial House  
Kendrick Road, Barry CF62 4BF**

## Rhifyn 25 Tymor y Gwanwyn 2012

### Pwyntiau o ddiddordeb arbennig:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

### Sefydlwyd VSGA er mwyn:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol



# Bwrdd Safonau CLG – Taflen Gwasanaethau i Ysgolion 2012/13

Mae'r ddogfennaeth CLG a luniwyd trwy'r Bwrdd Safonau wedi cael ei dosbarthu i'r holl Ysgolion erbyn hyn, er mwyn iddynt ystyried ei mabwysiadu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd angen i ysgolion gadarnhau eu bod yn mabwysiadu'r cytundebau erbyn dydd Gwener 16 Mawrth fan bellaf, er mwyn sicrhau darpariaeth y gwasanaeth o 1 Ebrill 2012. Am y tro cyntaf, mae'r Daflen hon yn cynnwys Cytundebau Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau anfasnachol yn ychwanegol i'r gwasanaethau masnachol a oedd ar gael yn flaenorol. Y rhain yw Mynediad a Threfniadaeth Ysgol, Cymorth i Lywodraethwyr a Llyfrgelloedd, ynghyd ag Arlwyio mewn Ysgolion Cynradd, a gafodd ei gynnwys y llynedd. Mae'r dogfennau hyn yn egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau ar gyfer darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr, yn ogystal â lefel y gwasanaeth a ddarparir i ysgolion gan y timau amrywiol. Cawsant eu drafftio er mwyn iddynt weithio law yn llaw â'r Cytundeb Partneriaeth, y mae'n parhau i fod mewn grym.

Roedd y cyngor yn falch gyda nifer uchel yr ysgolion a wnaeth ddewis prynu gwasanaethau'r cyngor y llynedd, ac mae'n gobeithio ychwanegu at hyn yn ystod 2012/13. Anfonwyd adroddiadau perfformiad tymhorol y Bwrdd Safonau at Gadeirydd eich Clwstwr ac maent ar gael i'w gweld ar StaffNet hefyd. Ar y cyfan, maent yn gadarnhaol iawn ac yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'ch rheolwyr gwasanaeth er mwyn iddynt allu datblygu eu gwasanaeth ymhellach, yn unol ag anghenion ysgolion unigol. Prif gyfrifoldeb y Bwrdd Safonau wrth baratoi'r adroddiadau hyn yw monitro perfformiad gwasanaethau a ddarparir i ysgolion trwy gydol cyfnod y cytundebau, a datrys materion sy'n ymwneud â pherfformiad. Yr unig ffordd y mae modd i hyn lwyddo, fodd bynnag, yw os bydd ysgolion yn sicrhau eu bod yn parhau i hysbysu'r Bwrdd Gwasanaethau ynghylch unrhyw faterion y maent wedi'u hwynebu o ran y gwasanaethau a ddarparwyd. Mae pob clwstwr wedi enwebu cynrychiolydd at y diben hwn; Mr Julian Davis, Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer clwstwr gwledig y Fro, Mr Mark Middlemiss o Ysgol Gynradd Palmerston ar gyfer Clwstwr y Barri a Mr Huw Jones, Ysgol Gynradd Albert o glwstwr Penarth.

Os hoffech dynnu sylw'r Bwrdd at fater sy'n ymwneud gyda pherfformiad y gwasanaeth, neu os hoffech drafod Taflen Gwasanaethau i Ysgolion y cyngor yn fanylach, a fydddech gystal â chysylltu gyda chynrychiolydd eich clwstwr neu

**Lisa Lewis, Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol**  
[Llewis@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:Llewis@valeofglamorgan.gov.uk)  
Telephone: 01446 709899.

## Disgyblion AAA – Adolygiad Trafnidiaeth

Ar hyn o bryd, mae'r Gyfarwyddiaeth Dysgu a Datblygu yn cynnal adolygiad o Wasanaeth Trafnidiaeth AAA. Bydd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y ddarpariaeth a'r polisi presennol er mwyn darparu cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion y mae ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY), nodi meysydd i'w gwella ac arbedion ariannol er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr a datganiad polisi eglur, gan roi sylw i ystyriaethau cyllidebol ar yr un pryd.

### Amcanion a Diben yr Adolygiad

- Archwilio'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes ar gyfer disgyblion ADY ym Mro Morgannwg, a nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth ac unrhyw orgyffwrdd.
- Archwilio enghreifftiau arfer gorau ym maes Trafnidiaeth ADY a nodi'r hyn y mae modd i'r gwasanaeth ei ddysgu o'r enghreifftiau hyn.
- Ymchwilio i feysydd posibl lle y gwelir anghysondeb wrth weithredu hawl ac egluro polisi a gweithdrefnau yn y meysydd hyn
- Ymchwilio i ffyrdd creadigol o ddarparu gwasanaeth o ansawdd o fewn cyllideb is
- Gwneud argymhellion ynghylch y pwyntiau uchod i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor.

Fel rhan o'r adolygiad, mae'r tîm yn cynnal gweithgarwch ymgynghori uniongyrchol gydag Ysgolion, rhieni, disgyblion, gwasanaethau eraill y cyngor a darparwyr trafndiaeth, yn ogystal â phartion eraill y mae ganddynt ddiddordeb. Os hoffech gael gwybod mwy am yr adolygiad hwn neu os hoffech gymryd rhan yn y broses ymgynghori hon, a fydddech gystal â chysylltu gyda Chadeirydd y Grŵp adolygu

**Lisa Lewis**  
Ffôn: 01446 709899  
neu anfonwch e-bost at  
[Llewis@Valeofglamorgan.gov.uk](mailto:Llewis@Valeofglamorgan.gov.uk)



## Sgwad 'Sgwennu Y Fro

Bu dechrau'r flwyddyn yn gyfnod cyffrous i Sgwad 'Sgwennu Y Fro, pan ddaeth Mererid Hopwood i'w gweld yn Ysgol Nant Talwg. Yr aelodau yw disgyblion Blwyddyn 5 a 6 y maent wedi dangos gallu arbennig i ysgrifennu'n greadigol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu'r sgwad yn treulio'r diwrnod yn cyfansoddi barddoniaeth a buont yn hynod o ffodus i gael cyflwyniad am grefft gymhleth cynghanedd gan un o'i meistri. Roedd Mererid, sef y fenyw gyntaf i ennill Cadair, Coron a Medal Ryddiaith yr Eisteddfod Genedlaethol, wrth ei bodd gyda'u gallu ysgrifennu, ac mae wedi gofyn a fyddai modd iddi ddychwelyd rywbyrd er mwyn gweithio gyda nhw unwaith eto. Gan mai Ysgol Nant Talwg oedd y lleoliad, cyfansoddodd Mererid bennill er mwyn dathlu

*Yn Nant Talwg down fel teulu  
at ein gilydd, down i ddysgu  
beth yw byw a bod yn Gymry,  
beth yw'r byd a sut i'w garu.*

Cafwyd diwrnod bythgofiadwy ac edrychwn ymlaen at weithio gyda hi unwaith eto yn y dyfodol agos. Er na fyddai eu cyfoedion iau yn rhagori arnynt, aeth Blynnyddoedd 7 ac 8 Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ati i sefydlu eu Sgwad Sgwennu eu hunain, a gyfarfu am y tro cyntaf ddechrau fis Chwefror. Arweiniwyd y gweithdy gan Bethan Gwanas, awdur Cymraeg toreithiog deunydd i blant ac oedolion. Bu'r disgyblion yn treulio'r diwrnod yn ysgrifennu straeon ac fe'u hanogwyd gan Bethan i ddarllen eu gwaith yn uchel. Rhoddodd arweiniad hynod o werthfawr i'r sgwad ynghylch sut i olygu eu gwaith, gan ei phrofiadau ynghylch realiti gweithio fel awdur amser llawn. Cafodd pawb ddiwrnod cynhyrchiol a phleserus iawn. mwyn sicrhau.

**Ceryl Rowe, Athrawes Fro**  
Gwasanaeth Gwella Ysgolion



## Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2010-12

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig ac un Cynrychiolydd Rhieni-Lywodraethwyr o'r sector Cynradd ac un arall o'r sector Uwchradd.

Rhif	Teitl	Llythyren gyntaf	Cyfenw	Ysgol
1	Cyng Mrs M	Alexander	Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd High Street	
2	Dr C	Brown	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes	
3	Mr N	Craggs	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô	
4	Cyng Mr C	Elmore	Ysgol Gynradd Holton	
5	Mrs M	Gibbs	Meithrinfa Tregatwg ac Ysgol Llanilltud Fawr	
6	Mrs S	Hodges	Ysgol Sant Baruc ac Ysgol Gwaun y Nant	
7	Mr K	Ingram	Ysgol Ashgrove ac Ysgol Gynradd Albert	
8	Cyng Mr G	Kemp	Ysgol Gyfun y Bont-faen ac Ysgol Gynradd Rhws	
9	Mrs A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres	
10	Mr M	Mason	Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr	
11	Dr M	Price	Ysgol Gatholig St Richard Gwyn	
12	Mr P	Sampson	Ysgol Gynradd Tregatwg	
13	Mr D	Treharne	Ysgol Gwaun y Nant	
14	Cyng Mr M	Wilson	Ysgol Gynradd Albert ac Ysgol Gynradd Victoria	
15	LLE GWAG			
CRhL	Mr P	Lewis	Ysgol Gyfun y Bont-faen	
CRhL	Mr S	Williams	Ysgol Gynradd y Rhws	
Arsylwr	Mrs G	Evans	Ysgol Iolo Morganwg	
Arsylwr	Mr G	Scott	Ysgol Gynradd High Street	

# Diweddariad Consortiwm Canol De Cymru (CSC)

## Cefndir a Chyd-destun

Mae'r CSC a sefydlwyd yn ddiweddar yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.

Ar hyn o bryd, mae tri o'r pum Awdurdod Lleol yn CSC yn manteisio ar wasanaethau gwella ysgolion trwy gyfrwng y Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion (ESIS) ar y cyd. Ar hyn o bryd, mae Cyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg yn cynnal eu Gwasanaethau Gwella Ysgolion eu hunain o fewn eu Hawdurdod Lleol.

Er bod y modelau cyfredol wedi sicrhau perfformiad da, mae'r pum Awdurdod Lleol sy'n creu'r CSC yn cydnabod na fyddant yn ddigonol er mwyn cynnal anghenion gwasanaeth gwella ysgolion yn y dyfodol, a pharhau i fod mewn sefyllfa ariannol hyfyw. Mae'r pwysau sy'n gorfodi'r newid fel a ganlyn:

- Ffocws cenedlaethol o'r newydd ar wasanaethau gwella ysgolion er mwyn helpu i godi safonau mewn ysgolion;
- Rhagdybiaeth ynghylch consortiwm rhanbarthol wedi'i seilio ar bedwar consortia cenedlaethol;
- Pwysau ariannol arwyddocaol ar yr Awdurdodau Lleol sy'n aelodau;
- Yr angen paralel am newid sylweddol o ran trylwyredd yr her a'r ymyrraeth a chynnydd o ran yr hyn sy'n cael ei ddirprwyo i ysgolion er mwyn caniatáu mwy o ryddid wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth;
- Yr angen i sicrhau bod atebolrwydd ysgolion ac Awdurdodau Lleol yn eglur; a

- Chydnabyddiaeth o'r anhawster wrth gyflawni rôl herio cadarn a gwasanaeth ymatebol o fewn yr un sefydliad, heb wrthdaro posibl rhwng buddiannau.

Er mwyn rhoi sylw i'r materion hyn, mae CSC yn dymuno sefydlu Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, gyda phrif amcan a gallu i sicrhau y bydd ysgolion y CSC, ymhen tair blynedd, yn sicrhau canlyniadau da yn gyffredinol, fel y'u mesurir gan arolygiadau Estyn. Bydd y weledigaeth newydd hon ynghylch CSC yn golygu y bydd angen rhoi'r gorau i'r modelau presennol o ran gwasanaethau gwella ysgolion, gan ddatblygu'r arferion gorau a nodwyd ar draws y rhanbarth.

## Y Gwaith Hyd yn Hyn

Hyd yn hyn, gwnaethpwyd gwaith helaeth er mwyn cynllunio'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd CSC newydd. Sefydlwyd Gweithgorau niferus ac mae cynnydd cadarn yn cael ei sicrhau.

Sefydlwyd Grwpiau Budd-ddeiliaid Cynrychioliadol ac mae CSC yn ymgynghori gyda chynrychiolwyr Penaethiaid o bob Awdurdod Lleol sy'n aelodau ohono, a fydd yn ymwneud gyda'r gwaith o bennu cyfeiriad Gwasanaeth Addysg ar y Cyd CSC yn y dyfodol.

Mae CSC yn cydweithio'n agos gydag Undebau Llafur a sefydliadau addysgu perthnasol ynghylch materion yn ymwneud ag Adnoddau Dynol, ac mae'r tabl sy'n dilyn yn cynnig amserlen o'r camau gweithredu allweddol y mae CSC yn gweithio arnynt.

Mae'r amserlenni a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn uchelgeisiol, ond rydym eisoes wedi sicrhau cynnydd cadarn er mwyn sicrhau y dylai'n gwasanaeth gwella ysgolion newydd fod yn barod i ddechrau siapio cymorth addysgol o fis Medi 2012.

Mae mewnbwn y sawl sy'n cyfrannu eu harbenigedd a'u cyngor yn hynod o werthfawr, ac mae cymorth parhaus yr unigolion hynny yn hanfodol er mwyn sicrhau bod CSC yn datblygu gwasanaeth gwella ysgolion newydd y mae'n addas i'r diben ac y mae'n sicrhau bod gwasanaethau cymorth a her o ansawdd uchel yn cael eu darparu i ysgolion.



# Ein hysgolion yn helpu Tŷ Hafan

Hoffwn adrodd yn ôl am gynllun lle y rhoddwyd rhodd anarferol i Dŷ Hafan, diolch i gyfraniad dros un o bob tair ysgol yn y Fro ac awydd penderfynol gŵr RAF Lleol, Dave Roberts, yr ydw i wedi cael y pleser o weithio yn ei brosiect "Tops for Tŷ Hafan".

Yn 2010, cysylltodd Dave gydag Adran Lanhau a Rheoli Gwastraff y Cyngor er mwyn gweld a fyddai modd i ni gy-northwyo wrth sicrhau bod ysgolion yn cymryd rhan mewn cynllun i gasglu caeadau plastig poteli pop a llaeth er mwyn eu hailgylchu.

Cychwynnodd Dave ei gynllun ar ôl i fenter elusennol debyg fethu, felly aeth ati i chwilio am gwmni, bpi.recycled products, a fyddai'n gallu ailgylchu'r plastig a gwneud cyfraniad ar ddiwedd y cynllun.

Gan weithio dan ein hymgyrch ambarél er mwyn codi ymwybyddiaeth o wastraff, sef 'Beth sydd yn eich bin?', ac ar y cyd ag Eco-Ysgolion, ac yn dilyn peilot llwyddiannus, buom yn hyrwyddo'r cynllun a fyddai'n para blwyddyn ymhlith holl ysgolion y Fro, a chyn bo hir, roedd 22 o ysgolion yn brysur yn dangos eu cefnogaeth ddi-ffael tuag at ailgylchu.

Cyflawnwyd dwy garreg filltir erbyn diwedd y prosiect. Roedd yr ysgolion a fu'n cymryd rhan wedi casglu gwerth tua 1.5 tonnell o gaeadau, sef yr un pwysau â char Mini Cooper. Ac er bod ei ddyletswyddau yn y gwaith wedi arwain at rywfaint o oedi, ar ddiwedd y prosiect, roedd Dave yn falch iawn pan gyflwynodd bwrdd picnic a oedd yn cynnwys mat chwarae, a roddwyd gan bpi, i'r hosbis. Mae'r bwrdd wedi cael ei gynhyrchu o'r un math o blastig a gasglwyd ar ffurf miloedd o gaeadau ar gyfer y prosiect, ac mae'n ddelfrydol i Dŷ Hafan, lle y gall dodrefn pren ddirywio yn gyflym o ganlyniad i awyr hallt y môr.

Ar ran Dave, hoffem ddiolch i ddisgyblion, staff a'u cymunedau casglu yn ysgolion cynradd y Fro a wnaeth gymryd rhan. Y rhain oedd Saint-y-brid, Y Bont-faen, Pendulwyn, Llanilltud Fawr, Y Rhws, St Nicholas, Llancafarn, Colcot, Ysgol Gwaun y Nant, Tregatwg, All Saints, Palmerston, Holton, Romilly, Ysgol Gymraeg Pen y Garth, St Joseph, Albert, Victoria, Sili, Meithrinfeydd Bute Cottage a Thregatwg ac Ysgol y Babanod Dinas Powys.

**Sam Harrison, Swyddog Ymwybyddiaeth Gwastraff**  
Adran Lanhau a Rheoli Gwastraff

I gael gwybod mwy am wasanaethau ailgylchu y Fro, trowch at ein tudalennau ailgylchu neu anfonwch e-bost atom [visible@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:visible@valeofglamorgan.gov.uk) neu ffoniwch 01446 700111.





# Ysgolion yn sicrhau Gwobrau Rhagoriaeth Dal i Fyny ym maes Ymyriadau Llythrennedd a Rhifedd



Sharon Nawrocki –  
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes



Sylvia Nickels a Sue Brown – Ysgol Gynradd Evenlode



Sue Croome – Ysgol Gynradd Romilly



Sue Bolton - Ysgol Gynradd Cogan

Mae Dal i Fyny Llythrennedd yn rhaglen ymyrraeth ardderchog a chyfarwydd ym Mro Morgannwg ac mae Dal i Fyny Llythrennedd yn datblygu'r un enw da am helpu dysgwyr gydag anawsterau. Ystyrir Bro Morgannwg fel 'esiamp!' i bawb wrth ddatblygu ac ymestyn gwaith Dal i Fyny Llythrennedd a Rhifedd. Ymyriadau un-i-un yw Dal i Fyny Llythrennedd a rhifedd, y maent yn targedu anghenion disgyblion unigol ym maes llythrennedd a rhifedd

Mae Sefydliad Dal i Fyny wedi cyflwyno Gwobr Rhagoriaeth er mwyn cydnabod a dathlu gweithrediad llwyddiannus ymyriadau Dal i Fyny gan ysgolion (neu leoliadau eraill). Mae'r wobwr yn dathlu cyflawniadau dysgwyr ac arfer rhagorol o fewn rhaglen Dal i Fyny. Mae ysgolion yn darparu tystiolaeth feintiol ac ansoddol er mwyn dangos canlyniadau cadarnhaol dysgwyr, yn ogystal â thystiolaeth o waith darparu a rheoli o ansawdd uchel o ran y rhaglen neu'r rhaglenni. Ceir tair lefel o fewn Gwobr Dal i Fyny: efydd, arian ac aur. Rhaid i ysgolion ddangos rhagoriaeth ym maes Dal i Fyny Llythrennedd neu Rifedd er mwyn sicrhau'r wobwr efydd, rhagoriaeth yn ddau er mwyn sicrhau'r wobwr arian a thystiolaeth ychwanegol o reolaeth barhaus ar lefel uchel er mwyn sicrhau'r wobwr aur.

Rydym wrth ein bodd bod tair ysgol wedi llwyddo i sicrhau'r safon Aur: Ysgolion Cynradd Evenlode, Y Wig a Marcroes a Romilly. Llongyfarchiadau hefyd i Ysgol Gynradd Cogan, a wnaeth lwyddo sicrhau'r safon Efydd. Mae hyn yn cynrychioli cyflawniad sylweddol gan y bedair ysgol ac mae'r llwyddiant wedi dod yn sgil ymrwymiad Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a fu'n cynorthwyo'r dysgwyr, yn casglu'r deunyddiau ac yn gwneud y cyflwyniadau. Roedd Cyfarwyddwr Dal i Fyny, Julie Lawes, yn falch iawn gyda safon uchel y cyflawniadau a wnaethpwyd gan yr holl ysgolion. Cawsant eu tystysgrifau gan Lindsay Harvey (Pennaeth Cwricwlwm 7 – 19 AdAS (Medi 2011)) yn ystod Cynhadledd flynyddol Dal i Fyny yng Nghaerdydd. Yn ystod y gynhadledd, gwnaethpwyd cyflwyniadau hyderus gan rai o'r Cynorthwywyr Cymorth Dysgu a wnaeth gyflwyno deunydd ar gyfer y wobwr, a oedd yn sôn am eu profiadau nhw a phrofiadau eu dysgwyr.

Unwaith eto, hoffem longyfarch y rhai a fu'n cymryd rhan.

Am wybodaeth bellach ynghylch rhaglenni neu hyfforddiant Dal i Fyny, cysylltwch â